ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth



# Cynnwys

**Rhagair gan y Gweinidog** 1

**Ein gweledigaeth ar gyfer addysg cerddoriaeth yng Nghymru** 2

**Cyd-destun y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth** 3

**Y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth** 4

**Y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol a'i flaenoriaethau** 6

Gweithio mewn partneriaeth 7

Darparu'n weithredol wasanaethau cerddoriaeth sy'n bodoli eisoes a gweithio mewn partneriaeth â'r corff arweiniol a phartneriaid 8

Y llyfrgell offerynnau, adnoddau a chyfarpar genedlaethol 8

Adolygu telerau ac amodau gwasanaethau cerddoriaeth a gynhelir gan awdurdodau lleol 8

Mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant 9

Fframwaith gwerthuso 9

**Y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol yn cefnogi Cwricwlwm i Gymru** 10

**Y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol: Rhaglenni gwaith** 11

**Cerddoriaeth mewn ysgolion** 13

Rhaglen waith: Profiadau cyntaf 13

Rhaglen waith: Llwybrau cerddoriaeth 14

Rhaglen waith: Gwersi cerdd 16

Rhaglen waith: Profiadau o gerddoriaeth fyw 17

**Cefnogi ysgolion, lleoliadau a chymunedau ehangach** 19

Rhaglen waith: Cymorth dysgu proffesiynol ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth, ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth a phartneriaid addysg cerddoriaeth ehangach 19

Rhaglen waith: Gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant 21

Rhaglen waith: Cerddoriaeth ar gyfer dysgu gydol oes, iechyd a lles 23

**Cerddoriaeth y tu allan i ysgolion** 24

Rhaglen waith: Creu cerddoriaeth gydag eraill – gweithgareddau cerddorol ac ensembles 24

Rhaglen waith: Creu cerddoriaeth gydag eraill – y diwydiannau perfformio a chreadigol 26

**Geirfa** 28

# Rhagair gan y Gweinidog

“P’un a gawson ni ein geni yma neu rydyn ni’n byw yng Nghymru, mae cerddoriaeth wedi bod yn ddylanwad cryf ar fywydau pob un ohonon ni. Mae cerddoriaeth wedi bod yn un o’r ffyrdd mwyaf cynhwysol o gyfathrebu a dathlu ein diwylliant a’n hiaith, ac mae’n parhau felly. Gallwn ni ymfalchïo yn y ffaith bod ein cymunedau drwy Gymru benbaladr ers amser wedi creu cerddoriaeth sy’n enwog dros y byd i gyd.


Rydyn ni i gyd wedi dysgu cerddoriaeth ar ryw ffurf neu’i gilydd o oedran ifanc. Boed hynny gan ein teulu a ffrindiau neu ysgolion a lleoliadau, mae’r daliadau hyn yn rhan hollbwysig o’n haddysg cerddoriaeth. Fel Gweinidog Addysg a’r Gymraeg, rwy’n gallu gweld y manteision lu y gall cerddoriaeth eu cynnig ym mywydau a lles plant a phobl ifanc.

Fodd bynnag, ers peth amser, mae dysgu sut i chwarae offeryn cerdd wedi bod yn rhywbeth i’r ychydig rai â rhieni a gofalwyr a allai fforddio costau gwersi cerdd. Mae rhaid i’r anghydraddoldeb hwn ddod i ben fel na ddylai unrhyw blentyn neu berson ifanc fyth golli allan trwy ddiffyg moddion. Ein gweledigaeth ar gyfer y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth yw bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, ni waeth beth fo’i gefndir, yn cael cyfle i ddysgu sut i chwarae offeryn. Drwy sefydlu’r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol byddwn ni’n cyflawni ein hymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 ac yn sicrhau y caiff y weledigaeth hon ei gwireddu.

Byddwn ni’n cynyddu cyllid yn sylweddol drwy fuddsoddi £4.5 miliwn y flwyddyn i gyflawni meysydd gwaith allweddol y cynllun. Rydyn ni eisoes wedi buddsoddi £6.82 miliwn yn ychwanegol yn 2021/22, gan adeiladu ar sylfeini’r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol i brynu offerynnau cerdd a thrwyddedau digidol. Bydd hyn yn sicrhau y bydd offerynnau cerdd ar gael i’n plant a’n pobl ifanc ledled Cymru.

Fel corff arweiniol y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn dyrannu cyllid i awdurdodau lleol a fydd yn gyfrifol am gyflawni llawer o’r gwaith yn y cynllun hwn. Bydd y cyllid hefyd yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel er mwyn eu helpu i gael gwersi cerdd, yn ogystal â chefnogi dysgwyr dan anfantais a’r rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymuno ag ensembles cerddorol.

“Nerth gwlad, ei gwybodaeth.” Drwy ddatblygu’r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol byddwn ni’n sicrhau ein bod yn meithrin sgiliau cerddorol ein cenhedlaeth nesaf, mewn ysgolion ac yn y gymuned, i barhau i greu talent newydd ac arddangos ein cerddoriaeth ar lwyfan y byd.”




**Jeremy Miles AS**
Y Gweinidog Addysg a’r Gymraeg

# Ein gweledigaeth ar gyfer addysg cerddoriaeth yng Nghymru

Dylai profiad o fwynhau cerddoriaeth, o bob math, fod wrth wraidd pob ysgol a lleoliad. Rydyn ni am i blant a phobl ifanc ledled Cymru gael cyfleoedd i chwarae, canu, cymryd rhan a chreu cerddoriaeth, yn ein hysgolion a'n lleoliadau, a hefyd yn ein cymunedau.

Mae cerddoriaeth a lles wedi'u cyd-blethu â'i gilydd i'r fath raddau ac rydyn ni am i'n plant goleddu a dathlu cerddoriaeth yng 'Ngwlad y Gân'. Drwy'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth, byddwn ni'n sefydlu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol i sicrhau nad yw prinder arian yn atal ein plant a'n pobl ifanc rhag cael cyfleoedd ym maes cerddoriaeth. Mae ein cynllun yn sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc o bob cefndir yn manteisio i'r eithaf ar yr hyn sydd gan ein diwylliant cyfoethog, ein treftadaeth a'n cymunedau i'w gynnig ledled Cymru a thu hwnt.

Dangosir ein blaenoriaethau ar gyfer addysg cerddoriaeth isod.



# Cyd-destun y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth

Bydd y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth (y 'cynllun') yn cyflawni ein hymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 i 'sefydlu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol i Gymru'. Mae'n ffrwyth canfyddiadau allweddol ac argymhellion o adroddiadau ar addysg cerddoriaeth yn ogystal â'n gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y sector addysg cerddoriaeth. Mae'r adroddiadau yn cynnwys Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerddoriaeth (2015), Pwyllgor y Senedd 'Taro'r Tant' (2018) ac Astudiaeth Ddichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth (2020).

## *Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru*

***Argymhelliad 15***

*Gan ddechrau ar unwaith, lle bo'n briodol, dylai awdurdodau lleol fynd ati ar y cyd i weithio ac adeiladu modelau gwasanaeth, gan anelu i sicrhau eu bod yn esgor ar ddarpariaeth o ansawdd uchel sy'n cynnig gwerth am arian. Dylid defnyddio memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng dau neu fwy o awdurdodau i adlewyrchu modelau cyflenwi/gwasanaeth, arferion gwaith a threfniadau partneriaeth cyfredol. Yn ogystal â hyn, dylid rhannu memoranda o'r fath ag awdurdodau lleol eraill fel enghreifftiau o gydweithio ac arfer da.*

## *Taro'r Tant: Ymchwiliad i ariannu addysg cerddoriaeth a gwella mynediad ati*

***Argymhelliad 1***

*Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth i gorff cenedlaethol hyd braich sydd â model a phatrwm penodol ar gyfer darpariaeth pob rhanbarth. Dylai'r corff cenedlaethol gael cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru a dylid ei wneud yn gyfrifol am sicrhau bod disgyblion a staff sy'n gweithio yn y sector addysg cerddoriaeth, ni waeth lle y maent na beth yw eu cefndir cymdeithasol, yn elwa ar gyfleoedd cyfartal. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan y corff cyfrifol unrhyw arian ychwanegol sydd ei angen er mwyn cynnal cydraddoldeb mynediad ar lefel Cymru gyfan.*

## *Astudiaeth Ddichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth*

***Casgliadau***

*Dylid ystyried datblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddorol.*

*Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen sefydliad newydd i ddatblygu a chyflawni'r cynllun. Dylid profi'r opsiynau a awgrymwyd gyda rhanddeiliaid strategol a darparwyr Gwasanaethau Cerddoriaeth.*

# Y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth

Mae angen dull gweithredu strategol a chynaliadwy er mwyn sicrhau bod addysg cerddoriaeth amrywiol a theg ar gael i'n plant a'n pobl ifanc rhwng 3 a 16 oed. Mae'n bwysig ein bod yn cryfhau ein haddysg cerddoriaeth er mwyn adfer ein plant a'n pobl ifanc a chefnogi eu lles ar ôl pandemig y coronafeirws (COVID-19). Mae'n hollbwysig cyfoethogi'r prosesau o addysgu, dysgu a mwynhau profiadau o gerddoriaeth ar ei holl ffurfiau gyda chymorth ein cymunedau a'r sector cerddoriaeth ehangach.

Wrth ddatblygu'r cynllun, rydyn ni wedi gweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru a'r sector cerddoriaeth ehangach, y bydd ganddyn nhw ran i'w chwarae wrth gefnogi addysg cerddoriaeth. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys ysgolion a lleoliadau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru (CAGAC), Cyngor Celfyddydau Cymru, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, consortia a phartneriaethau rhanbarthol, a llawer o randdeiliaid eraill. Er mwyn cefnogi'r broses ymgysylltu, gwnaethon ni hefyd ymgysylltu ag ysgolion a lleoliadau er mwyn casglu eu safbwyntiau ar addysg cerddoriaeth.

O'n proses ymgysylltu, daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg fel rhwystrau i brofi cerddoriaeth, sef cost gwersi, mynediad at ddarpariaeth gerddorol, ystod ac amrywiaeth gyfyngedig o offerynnau a genres cerddorol, diffyg dysgu proffesiynol i gefnogi cerddoriaeth, a mwy o gyfeiriadau at gyfleoedd a phrofiadau ym maes cerddoriaeth a rhwydweithio.

Rydyn ni am i'r cynllun chwalu'r rhwystrau hyn a sicrhau nad yw prinder arian yn arbennig yn atal unrhyw blentyn na pherson ifanc rhag cael cyfle i chwarae offeryn, canu, cymryd rhan neu greu cerddoriaeth drwy ddefnyddio ffyrdd traddodiadol a digidol.

Bydd y cynllun yn cefnogi ein hysgolion a'n lleoliadau wrth iddyn nhw gyflwyno Cwricwlwm i Gymru lle mae cerddoriaeth yn un o ddisgyblaethau Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Drwy gynnig gweithgareddau a phrofiadau i ysgolion a lleoliadau sy'n cefnogi'r ffordd y maen nhw'n dylunio eu cwricwlwm, bydd hynny'n helpu ein plant a'n pobl ifanc i gael cyfleoedd i ddysgu cerddoriaeth mewn ysgolion a lleoliadau a'r tu allan iddyn nhw.


Drwy'r cynllun, byddwn ni'n meithrin cysylltiadau cryfach â sefydliadau yn y sector addysg cerddoriaeth er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd i greu cerddoriaeth a mwynhau cerddoriaeth am oes ledled Cymru, ni waeth ble mae'r ysgol neu'r lleoliad. Mae'n bwysig bod y cynllun yn gweithio i gefnogi'r ffordd y mae ysgolion a lleoliadau yn cyflawni hyn er mwyn i'n plant a'n pobl ifanc ddatblygu sgiliau cerddorol a sgiliau trosglwyddadwy eraill sy'n cyflawni pedwar diben Cwricwlwm i Gymru ac sy'n llywio syniadau ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

**Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn, bydd y cynllun yn:**

- sefydlu'r **Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol** (y 'gwasanaeth cerddoriaeth') – bydd y gwasanaeth cerddoriaeth yn gweithredu o fis Mai 2022 a bydd yn cynnwys partneriaid a sefydliadau allweddol yn gweithio gyda'i gilydd fel 'hwb'. CLlLC fydd y corff arweiniol ('corff arweiniol') sy'n gyfrifol am drefniadau llywodraethu a dyrannu cyllid i gyflawni'r blaenoriaethau yn y cynllun. Bydd CLlLC, drwy ei rôl, yn sicrhau bod y rhaglenni gwaith yn amrywiol ac yn hygyrch i blant a phobl ifanc, ac, wrth wneud hynny, dilyn egwyddorion canllawiau Llywodraeth Cymru ar yr economi sylfaenol, lle bo modd gwneud hynny
- datblygu rhaglen **Cerddoriaeth mewn ysgolion** i'w rhoi ar waith o fis Medi 2022 – bydd y rhaglen yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc o oedran ysgol (3 i 16) yn cael cyfleoedd i chwarae, canu, cymryd rhan a chreu cerddoriaeth. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel, yn ogystal â chefnogi dysgwyr dan anfantais a'r rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Caiff y rhaglen hon ei chynllunio i fod yn gyson â Chwricwlwm i Gymru a bydd yn cael ei chyflwyno drwy'r gwasanaeth cerddoriaeth gan awdurdodau lleol a phartneriaid
- datblygu rhaglen **Creu cerddoriaeth gydag eraill** a fydd yn cefnogi mynediad plant a phobl ifanc at amrywiaeth o gyfleoedd i greu cerddoriaeth gydag eraill – bydd y gweithgareddau allweddol yn cynnwys rhaglen adfer ensemble a chyfleoedd i blant a phobl ifanc gael profiad o'r diwydiant drwy weithio ochr yn ochr â cherddorion a'r diwydiannau creadigol. Mae'n bwysig bod ein plant a'n pobl ifanc yn cymryd rhan mewn cerddoriaeth fyw ac yn cael profiad ohoni ac yn cael mynediad at dechnoleg cerdd ddigidol, yn ogystal â mentrau sy'n cefnogi iechyd a lles. Bydd y rhaglen hon yn helpu i feithrin cysylltiadau cryfach â chymunedau a bydd yn rhoi cyfleoedd mwy amrywiol y tu allan i ysgolion a lleoliadau
- **datblygu llyfrgell offerynnau, adnoddau a chyfarpar genedlaethol** – rydyn ni wedi gwneud buddsoddiad sylweddol o £5.5 miliwn yn 2021/22 er mwyn helpu i brynu offerynnau cerdd, offerynnau cerdd addasol i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chyfarpar recordio digidol i'n holl blant a phobl ifanc. Bydd y cynllun hwn yn galluogi'r gwasanaeth cerddoriaeth i helpu awdurdodau lleol i sefydlu mynediad at lyfrgell o offerynnau, adnoddau a chyfarpar, yn arbennig i gefnogi plant a phobl ifanc dan anfantais a phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed
- **darparu cymorth dysgu proffesiynol** – mae hyn yn allweddol er mwyn helpu tiwtoriaid gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol ac ymarferwyr ystafell ddosbarth i gael gafael ar ddeunyddiau dysgu proffesiynol. Mae hyn yn bwysig i gefnogi'r amrywiol raglenni gwaith sy'n rhan o'r cynllun, yn benodol 'Profiadau cyntaf' a cherddoriaeth yn fwy cyffredinol yng Nghwricwlwm i Gymru. Rydyn ni wedi buddsoddi £1.32 miliwn yn 2021/22 i ddatblygu llwyfan digidol gyda mynediad at ddeunyddiau i gefnogi'r gwaith o roi gwersi cerdd. Bydd y gwasanaeth cerddoriaeth yn trefnu ac yn hwyluso cyfleoedd dysgu proffesiynol ag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, consortia a phartneriaethau rhanbarthol, a Chyngor Celfyddydau Cymru.

# Y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol a'i flaenoriaethau

Bydd y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle i chwarae, canu, cymryd rhan a chreu cerddoriaeth. Bydd y corff arweiniol yn darparu seilwaith cadarn wrth gyflawni'r cynllun ar gyfer addysg cerddoriaeth a rhoi cyfleoedd i greu cerddoriaeth yng Nghymru. Bydd ei waith ar gyflawni blaenoriaethau'r gwasanaeth cerddoriaeth yn cynnwys y llyfrgell offerynnau, adnoddau a chyfarpar genedlaethol, cydgysylltu cymorth dysgu proffesiynol, datblygu mentrau i fynd i'r afael â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a datblygu ensembles.





Er mwyn cydgysylltu gweithgareddau y tu allan i ysgolion a lleoliadau, bydd y corff arweiniol yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol ym maes addysg cerddoriaeth, gan ymgysylltu â chymunedau a gweithio gyda sefydliadau diwylliannol a sefydliadau addysg uwch. Mae hyn yn sicrhau y bydd amrywiaeth o gyfleoedd cerddorol a darparwyr, yn lleol ac yn genedlaethol, ar gael i bob ysgol a lleoliad a phob plentyn a pherson ifanc a chymunedau ehangach.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a lleoliadau a cherddorion ledled Cymru yn un o flaenoriaethau allweddol y gwasanaeth cerddoriaeth fel rhan o'i waith i ddathlu'r amrywiaeth eang o gerddoriaeth a gynigir gan ein diwylliant a'n treftadaeth.

Mae'r diagram isod yn dangos yr amrywiaeth o bartneriaid y bydd y corff arweiniol yn gweithio gyda nhw fel rhan o'i rôl gydgysylltu er mwyn helpu i gyflawni'r cynllun. Mae'r partneriaid hyn, er nad yw'n rhestr gynhwysfawr o bell ffordd, yn cynnwys y partneriaethau addysg cerddoriaeth ehangach megis grwpiau cerddoriaeth cymunedol, sefydliadau ieuenctid lleol, bandiau pres a chorau yn ogystal â sefydliadau cenedlaethol, awdurdodau lleol, partneriaethau cymdeithasol a llawer mwy. Mae'r sefydliadau ehangach hyn yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o helpu ysgolion a lleoliadau i gyflwyno cerddoriaeth fel rhan o Gwricwlwm i Gymru ac, yn benodol, Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Mae rôl gydgysylltu'r corff arweiniol yn hanfodol er mwyn dwyn ynghyd addysgwyr cerddoriaeth, cerddorion a pherfformwyr o bob cefndir, ledled Cymru ac yn fyd-eang er mwyn helpu ein plant a'n pobl ifanc i archwilio a datblygu diddordeb gydol oes mewn cerddoriaeth.



## Darparu'n weithredol wasanaethau cerddoriaeth sy'n bodoli eisoes a gweithio mewn partneriaeth â'r corff arweiniol a phartneriaid

Bydd blaenoriaethau'r cynllun hwn yn adeiladu ar y gwersi cerdd a'r gweithgareddau creu cerddoriaeth presennol a gynigir i ysgolion a lleoliadau gan awdurdodau lleol yn hytrach na'u disodli. Mae gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol yn ddolen gyswllt hollbwysig rhwng y gweithgareddau a gyflwynir yn yr ysgol a'r rhai y tu allan i'r ysgol. Bydd y gwaith o helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y gweithgareddau newydd a amlinellir yn y cynllun hwn yn ychwanegol at y rôl bwysig sydd gan wersi cerdd i'w chwarae o ran galluogi cynnydd cerddorol.

Ysgolion a lleoliadau, gyda chymorth consortia a phartneriaethau rhanbarthol, sy'n gyfrifol am y rôl o ddatblygu a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru, yn benodol Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Bydd y corff arweiniol, fel rhan o'i rôl o gydgysylltu blaenoriaethau'r cynllun â phartneriaid, yn sicrhau, drwy feithrin cysylltiadau cryfach â'r gymuned, mewn amrywiaeth eang o rwydweithiau, y bydd pob gwasanaeth cerddoriaeth lleol yn cadw ei hunaniaeth ei hun, wrth ehangu'r cynnig i blant a phobl ifanc.

## Y llyfrgell offerynnau, adnoddau a chyfarpar genedlaethol

Drwy sefydlu'r llyfrgell offerynnau, adnoddau a chyfarpar genedlaethol (y 'llyfrgell') byddwn ni'n gwneud y defnydd gorau o offerynnau, adnoddau a chyfarpar newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Bydd y corff arweiniol yn gweithio gydag awdurdodau lleol i adeiladu ar systemau presennol ar gyfer benthyca ac olrhain offer a chyfarpar, a nodi cyfleoedd i gydweithio â'i bartneriaid a sefydliadau eraill i gaffael offerynnau a chyfarpar ar lefel leol, rhanbarthol neu genedlaethol. Lle bo'n bosibl, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r economi sylfaenol, bydd y llyfrgell yn sicrhau bod plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel yn cael mynediad at offerynnau cerdd mewn ysgolion a lleoliadau a thu allan iddyn nhw. Bydd y corff arweiniol hefyd yn gweithio gyda Music Mark UK, Cymdeithas y Diwydiannau Cerdd a CAGAC i ddatblygu rhestr achrededig o atgyweirwyr, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian wrth gaffael offerynnau, adnoddau a chyfarpar.

## Adolygu telerau ac amodau gwasanaethau cerddoriaeth a gynhelir gan awdurdodau lleol

Bydd y corff arweiniol yn adolygu'r heriau a wynebir gan y gweithlu ledled Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn cymryd y camau sydd eu hangen i roi'r cynllun a'i flaenoriaethau ar waith.

Ers 1998, mae newidiadau parhaus i gontractau gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol wedi cyfrannu at amrywiaeth gynyddol yn y telerau ac amodau.

Er mwyn diwallu anghenion y gweithlu a sicrhau eu bod nhw'n cael eu trin yn gyfartal a bod eu cyfraniad i addysg cerddoriaeth yn cael ei gydnabod yn gywir, bydd y corff arweiniol yn cynnal adolygiad o delerau ac amodau tiwtoriaid gwasanaethau cerddoriaeth a gynhelir gan awdurdodau lleol. Bydd yr adolygiad cychwynnol yn dechrau yn ystod hydref 2023 a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn haf 2024.

## Mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc gael profiad o gerddoriaeth a datblygu eu galluoedd, ni waeth beth fo'u cefndir, yn hanfodol i greu sector addysg cerddoriaeth amrywiol a chynhwysol. Mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn profiadau cerddorol sy'n berthnasol i brofiadau diwylliannol gwahanol plant a phobl ifanc ledled Cymru, yn benodol, ethnigrwydd ac anabledd, ac sy'n cynrychioli'r profiadau hynny, yn rhan allweddol o amrywiaeth a chynhwysiant. Ymhlith yr ystyriaethau pwysig ar gyfer ein gweithgareddau mae'r ffordd rydyn ni'n sicrhau mynediad at yr ystod a'r amrywiaeth o gyfleoedd cerddorol sydd ar gael i blant a phobl ifanc, yn ogystal â mynediad at amrywiaeth eang o offerynnau a dewisiadau. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn hyrwyddo ac yn dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y modd yr ydyn ni'n darparu'r gwasaneth.

Bydd y corff arweiniol, wrth ddatblygu a goruchwylio polisi cenedlaethol a lleol ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn addysg cerddoriaeth, yn gweithio gyda phartneriaid i wella cynrychiolaeth drwy'r sector cyfan ac i ddatblygu mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar y ffordd y gallwn ni wella yn y maes hwn.

Bydd y mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn mynd i'r afael â'r rhwystrau i gymryd rhan mewn cerddoriaeth megis cost a chyfleoedd i gael gwersi cerdd a darpariaeth. Drwy gyfleoedd dysgu proffesiynol i'r gweithlu, bydd y corff arweiniol yn gweithio gyda phartneriaid i atal tuedd, anghydraddoldeb, bwlio, rhagfarn neu stereoteipio yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig ac i gefnogi mynediad i blant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel. Bydd y mentrau hyn hefyd yn ystyried sut y byddwn ni'n cynyddu cyfleoedd cyfeirio a rhwydweithio i gerddorion heb gynrychiolaeth ddigonol a cherddorion Cymraeg eu hiaith er mwyn iddyn nhw gael cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o roi'r cynllun ar waith.

## Fframwaith gwerthuso

Bydd y corff arweiniol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r fframwaith gwerthuso sy'n hanfodol i fonitro pa mor dda y mae'r cynllun yn ei wneud o ran cyflawni ei amcanion. Bydd y gwaith hwn yn edrych ar sut rydyn ni'n mesur llwyddiant y cynllun gan gynnwys casglu data gwaelodlin, datblygu dangosyddion perfformiad a dyfeisio methodoleg ar gyfer ymchwilio i ba raddau y gwireddir y canlyniadau hyn yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Bydd y corff arweiniol a Llywodraeth Cymru yn amlinellu eu gwaith ar y fframwaith yn hydref 2022.

# Y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol yn cefnogi Cwricwlwm i Gymru

Bydd Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno'n raddol mewn ysgolion a lleoliadau o fis Medi 2022. Pedwar diben y cwricwlwm yw'r weledigaeth a'r dyhead a rennir ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Gan adeiladu ar hyn, bydd pob ysgol a lleoliad yn cynllunio ac yn gweithredu ei chwricwlwm/gwricwlwm ei hun o fewn y dull gweithredu cenedlaethol sy'n sicrhau cysondeb i blant a phobl ifanc ledled Cymru.

Mae cerddoriaeth yn un o'r disgyblaethau ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Rôl y gwasanaeth cerddoriaeth fydd cefnogi addysg cerddoriaeth a chyfeirio ysgolion a lleoliadau at ei raglenni, a'u cynghori ar y profiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael drwy ei raglenni. Ysgolion a lleoliadau fydd yn penderfynu sut maen nhw'n cynnwys yr hyn a gynigir wrth gyflwyno Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, yn ogystal â chreu cysylltiadau â'r meysydd dysgu a phrofiad ehangach.


Bydd y gwasanaeth cerddoriaeth yn chwarae rôl allweddol i gefnogi ysgolion a lleoliadau drwy roi mynediad at brofiadau a chyfleoedd i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd am gamu ymlaen ac arbenigo mewn cerddoriaeth, gan ddatblygu sgiliau ar hyd y ffordd y gellir eu trosglwyddo ar gyfer gyrfaoedd yn y diwydiannau creadigol. Mae cefnogi'r defnydd o sgiliau yn rhan annatod o ddatblygiad cerddorol, gan sicrhau y caiff pob plentyn a pherson ifanc gyfle i ragori a gwireddu ei uchelgeisiau.

Mae gwaith partneriaeth cadarn, ynghyd â chyfraniad gwerthfawr ein gweithlu addysg cerddoriaeth a'r gymuned gerddoriaeth ehangach, yn allweddol i gefnogi'r cyfleoedd y gall y gwasanaeth cerddoriaeth eu cynnig i blant a phobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau a'r tu allan iddyn nhw. Bydd y gwasanaeth cerddoriaeth yn cyfeirio plant a phobl ifanc ac ysgolion a lleoliadau at amrywiaeth eang o weithgareddau cerddorol, yn eu cymunedau lleol a ledled Cymru. Drwy weithio gyda chymunedau, gyda chyfraniad gwerthfawr gan weithwyr proffesiynol yn y diwydiant cerddoriaeth a rolau model cerddorol ysbrydoledig, bydd modd cynnig addysg cerddoriaeth o ansawdd a chefnogi lles cenedlaethau'r dyfodol am flynyddoedd i ddod.

# Y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol: Rhaglenni gwaith

Bydd rhaglenni gwaith y gwasanaeth cerddoriaeth yn rhoi cyfleoedd i'r corff arweiniol weithio gydag ysgolion a lleoliadau, awdurdodau lleol a gwasanaethau cerddoriaeth, a chynllunio gweithgareddau er mwyn rhoi cymaint o gyfleoedd â phosibl i blant a phobl ifanc ddysgu a chreu cerddoriaeth. Caiff y gweithgareddau hyn eu gwerthuso a'u monitro, a fydd yn cynnwys cyfraniad ymarferwyr gwasanaethau cerddoriaeth, ysgolion a lleoliadau a phlant a phobl ifanc, y mae ganddyn nhw oll rôl allweddol i'w chwarae i ddatblygu'r gweithgareddau a gynigir gan y rhaglenni gwaith.

Drwy ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, rydyn ni wedi nodi nifer o raglenni gwaith ar gyfer addysg cerddoriaeth. Mae'r diagram isod yn dangos y profiadau a'r cyfleoedd a fydd ar gael i blant a phobl ifanc drwy'r rhaglenni gwaith hyn mewn ysgolion a lleoliadau a'r tu allan iddyn nhw, neu'r ddau, ni waeth ble maen nhw'n byw yng Nghymru.




Bydd **Profiadau cyntaf** a **Phrofiadau o gerddoriaeth fyw** yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc chwarae, canu, cymryd rhan, creu neu gael profiad o fwynhau creu cerddoriaeth a pherfformiadau o gerddoriaeth fyw.

Bydd **Gwersi cerdd** (i grwpiau neu i unigolion) a **Llwybrau cerddoriaeth** yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd am astudio offeryn cerdd neu ganu i gamu ymlaen ar hyd y continwwm dysgu, i ddatblygu cymhlethdod, rheolaeth, dyfnder ac annibyniaeth o ran dealltwriaeth gerddorol. Bydd y rhaglen waith hon yn rhoi cymorth penodol i bobl ifanc o gartrefi incwm isel a'r rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Bydd **Creu cerddoriaeth gydag eraill** a **Cherddoriaeth i hybu iechyd a lles**, a gyflwynir mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau, yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gael budd o brofiadau drwy chwarae mewn grwpiau neu ensembles, creu eu cerddoriaeth eu hunain, cael mynediad at stiwdios recordio neu leoliadau, a chymryd rhan mewn digwyddiadau a gwyliau cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd y rhaglenni hyn yn cefnogi ein plant a'n pobl ifanc sydd am ystyried gyrfaoedd yn y **diwydiannau creadigol**.

Caiff pob un o'r rhaglenni gwaith eu cyflwyno mewn ysgolion a lleoliadau neu y tu allan iddyn nhw, neu mewn cyfuniad o'r ddau. Bydd y gweithgareddau yn y rhaglenni gwaith yn adeiladu ar y gweithgareddau y tu allan i'r ysgol a gynigir gan wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol, eu partneriaid a sefydliadau eraill. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dysgu ar-lein, gweithgareddau wythnosol mewn canolfannau cerdd, grwpiau ieuenctid ac ensembles 'sirol', cyrsiau preswyl, cyngherddau a gwyliau, teithiau tramor, dosbarthiadau meistr ac arholiadau cerddoriaeth allanol. Er bod y rhan fwyaf o wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol eisoes yn darparu'r amrywiaeth hon o weithgareddau, bydd y cymorth ychwanegol i blant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel yn helpu i sicrhau bod y gweithgareddau hyn ar gael i bawb.

# Cerddoriaeth mewn ysgolion

Hyrwyddo cydraddoldeb drwy sicrhau mynediad i bob dysgwr chwarae, canu, cymryd rhan, datblygu a chreu cerddoriaeth

Cefnogi ysgolion a lleoliadau

## Rhaglen waith: Profiadau cyntaf

Ysgolion cynradd, ysgolion arbennig a lleoliadau addysg eraill (3 i 11 oed)

Bydd y rhaglen waith Profiadau cyntaf yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael yr un cyfle i chwarae, canu, cymryd rhan a chreu cerddoriaeth mewn ysgolion cynradd a lleoliadau. Bydd y rhaglen waith yn rhoi cyfleoedd i blant brofi amrywiaeth eang o offerynnau ac arddulliau cerddorol. Gall ysgolion a lleoliadau fanteisio ar y cyfleoedd hyn i'w helpu i gyflwyno'r cwricwlwm drwy gynnig man cychwyn ysbrydoledig i fwynhau cerddoriaeth.

I lawer o blant, ysgolion cynradd, ysgolion arbennig a lleoliadau addysg eraill fydd eu profiad cyntaf o addysg cerddoriaeth. Bydd y corff arweiniol yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ac ysgolion a lleoliadau i ddatblygu rhaglen o weithgareddau a fydd yn fuddiol i blant a phobl ifanc ac yn cefnogi ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth.

Caiff y rhaglen waith Profiadau cyntaf ei datblygu gyda'r nod o ysbrydoli plant a phobl ifanc a rhoi cymorth dysgu proffesiynol i ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth ar yr un pryd. Bydd hyn yn gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc, yn datblygu eu sgiliau a'u hyder, ac yn helpu ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth i gynnwys gweithgareddau cerdd yn eu cwricwlwm ehangach.

Bydd y gwaith o rwydweithio a rhannu gwybodaeth yn cael ei gefnogi drwy gysylltiadau agosach ag ymarferwyr gwasanaethau cerddoriaeth, gan roi cyfleoedd cyfeirio i weithio gyda cherddorion o gefndiroedd amrywiol ac sydd ag amrywiaeth o brofiadau ymarferol.

Efallai y bydd ysgolion a lleoliadau am gyfuno'r rhaglen waith Profiadau cyntaf â rhaglen waith **Profiadau o gerddoriaeth fyw** neu gynnig y gweithgareddau bob yn ail ar sail dymhorol neu flynyddol er mwyn amrywio'r profiadau a gynigir i blant a phobl ifanc.

### Er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc, bydd y rhaglen waith Profiadau cyntaf yn:

- cael ei chynnig i bob ysgol gynradd a lleoliad dros y tair blynedd nesaf
- adeiladu ar ddarpariaeth bresennol ysgolion/lleoliadau, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i chwarae, canu, cymryd rhan a chreu cerddoriaeth
- cyflwyno profiadau cerddorol cynhwysol wyneb yn wyneb a/neu ar-lein
- rhoi cyfleoedd i gael profiad o greu cerddoriaeth a datblygu sgiliau creadigol, trosglwyddadwy
- cael ei chyflwyno drwy sesiynau offerynnol, llais, cyfansoddi neu dechnoleg cerdd, i grwpiau mawr neu ddosbarthiadau cyfan
- cwmpasu amrywiaeth eang o offerynnau a genres/arddulliau cerddorol, wedi'i llywio gan lais plant a phobl ifanc.

### Er mwyn cefnogi dysgu proffesiynol i ysgolion a lleoliadau, bydd y rhaglen waith Profiadau cyntaf yn:

- cael ei datblygu drwy ddull 'dysgu mewn tîm' a fydd yn cefnogi dysgu proffesiynol tiwtoriaid ystafell ddosbarth a gwasanaethau cerddoriaeth
- rhoi mynediad at ddeunyddiau dysgu proffesiynol i ysgolion a chyfleoedd mentora
- helpu ysgolion a lleoliadau i ystyried amrywiaeth yn gyson mewn cerddoriaeth o amrywiaeth ehangach o genres o bedwar ban byd.

## Rhaglen waith: Llwybrau cerddoriaeth

Ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig a lleoliadau addysg eraill (11 i 16 oed)

Gwella iechyd a lles drwy gerddoriaeth

Cysylltu'r diwydiant cerddoriaeth ag addysg uwch a dysgu gydol oes

Bydd y rhaglen waith Llwybrau cerddoriaeth yn darparu profiadau o weithgareddau creu cerddoriaeth i gefnogi iechyd a lles meddyliol i blant a phobl ifanc, yn ogystal â rhoi cyfleoedd i'r rhai sy'n dymuno camu ymlaen a dilyn gyrfa mewn cerddoriaeth neu'r diwydiannau creadigol. Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i ystyried ffyrdd o ddatblygu eu galluoedd mewn cerddoriaeth, boed hynny er mwynhad, er mwyn eu hiechyd a'u lles, neu er mwyn arbenigo mewn gweithio i'r diwydiannau creadigol. Mae cynnydd drwy Faes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn allweddol i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy ar draws y cwricwlwm ehangach.

Mae'n bwysig ein bod yn cefnogi'r genhedlaeth nesaf o'n plant a'n pobl ifanc i gyflawni eu potensial cerddorol, ac i lawer bydd hynny'n cynnwys dod yn gerddorion, yn athrawon ac yn weithwyr proffesiynol yn y diwydiant er mwyn gweithio yn ein diwydiannau creadigol. Bydd y rhaglen waith Llwybrau cerddoriaeth hefyd yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd â'r uchelgais o gael gyrfa yn y diwydiannau creadigol. Mae helpu ein grŵp o blant a phobl ifanc sydd o dan anfantais a heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol sy'n hybu lles yn rhan hollbwysig o'r gwaith hwn.

Bydd y corff arweiniol yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i nodi a datblygu cyfleoedd newydd i blant a phobl ifanc gymryd rhan a chael profiad o gerddoriaeth. Bydd y rhaglen waith hon yn cyfeirio ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys ysgolion arbennig, at raglenni o weithgareddau cerddorol sy'n bodoli eisoes a rhai newydd.

Er mwyn helpu pob plentyn a pherson ifanc i gyflawni ei botensial, bydd y corff arweiniol yn mynd i'r afael â'r 'bwlch mewn uchelgais' drwy weithio gydag ysgolion a lleoliadau, y diwydiant cerddoriaeth a Gyrfa Cymru i godi ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfa posibl yn y diwydiannau creadigol.

Bydd y rhaglen waith Llwybrau cerddoriaeth ar gael i bob ysgol a lleoliad 11 i 16 oed ac yn cefnogi iechyd a lles a chynnydd.

### Er mwyn cefnogi iechyd a lles, bydd y rhaglen waith Llwybrau cerddoriaeth yn:

- darparu cyllid penodol er mwyn sicrhau mynediad at weithgareddau cerddorol sy'n hybu lles i blant a phobl ifanc sydd dan anfantais a heb gynrychiolaeth ddigonol
- gweithio gydag ysgolion a lleoliadau er mwyn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei gynrychioli wrth ddatblygu a hyrwyddo gweithgareddau sy'n ymwneud â cherddoriaeth ac ymyriadau sy'n cefnogi gwelliannau i iechyd a lles
- sicrhau, drwy weithio gyda sefydliadau megis Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, fod pob plentyn a pherson ifanc yn cael mynediad at amrywiaeth o brofiadau ensemble cerddorol, yn lleol ac yn genedlaethol.

**Er mwyn cefnogi cynnydd ac arholiadau, bydd y rhaglen waith Llwybrau cerddoriaeth yn:**

- gweithio gyda phob ysgol a lleoliad i fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth ddamcaniaethol, dealltwriaeth gerddorol sylfaenol a sgiliau cyfansoddi sydd eu hangen i astudio ymhellach
- sicrhau bod y dysgwyr o gartrefi incwm isel sy'n dymuno sefyll arholiadau cerddoriaeth ymarferol neu ddamcaniaethol yn cael mynediad at gyfnodau gwersi priodol i gefnogi cynnydd, a chymorth ariannol gyda ffioedd arholiad
- gweithio gyda Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill i nodi a hyrwyddo ffyrdd o ymuno â'r proffesiwn cerddoriaeth drwy lwybrau anacademaidd neu fynediad at brentisiaethau ac interniaethau, neu greu cerddoriaeth mewn amser hamdden
- sicrhau, drwy'r llyfrgell offerynnau, adnoddau a chyfarpar genedlaethol, fod plant a phobl ifanc yn cael mynediad at offerynnau neu gyfarpar arbenigol priodol i'w helpu i ddatblygu ymhellach
- drwy'r corff arweiniol, cyfrannu at adolygiad Cymwysterau Cymru o ofynion TGAU newydd mewn cerddoriaeth.

## Rhaglen waith: Gwersi cerdd

Ysgolion cynradd ac uwchradd, ysgolion arbennig a lleoliadau addysg eraill

Hyrwyddo cydraddoldeb drwy sicrhau mynediad i bob dysgwr chwarae, canu, cymryd rhan, datblygu a chreu cerddoriaeth

Cysylltu'r diwydiant cerddoriaeth ag addysg uwch a dysgu gydol oes

Mae cyfleoedd i ddatblygu profiadau, gwybodaeth a sgiliau i wella galluoedd plant a phobl ifanc i archwilio, creu ac ymateb mewn cyd-destun cerddorol yn hollbwysig i brofiad dysgu mwy cydlynol. Rydyn ni am helpu pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu ei sgiliau cerddorol ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Mae angen inni gefnogi ein plant a'n pobl ifanc sydd am arbenigo mewn cerddoriaeth, er mwyn harneisio eu huchelgais a'u talent unigol, naill ai yn yr ysgol neu'r tu allan i'r ysgol.

Mae gwersi cerdd i grwpiau neu unigolion yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddatblygu sgiliau offerynnol, cyfansoddi, technoleg cerdd a/neu lais. Drwy hyn bydd plant a phobl ifanc yn gallu symud ar gyflymder priodol ar hyd y continwwm dysgu, a fydd yn eu galluogi i ddatblygu a thyfu.

Bydd y corff arweiniol ac awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a cherddorion yn y gymuned i sicrhau bod dewis amrywiol o gerddoriaeth, cerddorion, offerynnau a chyfarpar ar gael i blant a phobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau a'r tu allan iddyn nhw.

Bydd y corff arweiniol ac awdurdodau lleol yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a chyfeiriadau ar gael i blant a phobl ifanc gyda ffocws penodol ar y rhai sydd ag ADY, grwpiau dan anfantais a heb gynrychiolaeth ddigonol, a dysgwyr mwy galluog a thalentog.

**Er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau o ran mynediad, cost, ystod ac amrywiaeth o fewn y rhaglen waith Gwersi cerdd, bydd y corff arweiniol ac awdurdodau lleol yn gweithio gydag ysgolion a lleoliadau o ran:**

### mynediad

- sicrhau bod mynediad at wersi drwy wasanaethau cerddoriaeth sy'n cael eu cynnal neu eu comisiynu gan awdurdodau lleol neu fathau eraill ym mhob rhan o Gymru
- sicrhau bod offeryn neu gyfarpar ar gael am ddim at ddefnydd dysgwyr o gartrefi incwm isel a dysgwyr dan anfantais er mwyn cefnogi gwersi
- sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i blant na phobl ifanc o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- sicrhau bod offerynnau neu gyfarpar addasol ar gael i blant a phobl ifanc sydd ag ADY lle bo angen er mwyn cefnogi gwersi
- sicrhau bod cyfleoedd ar gael, ni waeth ble, drwy sicrhau bod gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol yn parhau i ddatblygu dull dysgu cyfunol neu ddigidol

### cost

- sicrhau nad yw mynediad at wersi cerdd yn rhwystr i ddysgwyr o gartrefi incwm isel lle na allai rhieni a gofalwyr fforddio'r costau gwersi
- sicrhau na chodir unrhyw dâl am wersi cerdd/ymarferol sy'n cyfrannu at astudio cerddoriaeth ar lefel TGAU neu Safon Uwch
- datblygu polisi er mwyn cytuno ar uchafswm tâl ar gyfer gwersi cerdd a gyflwynir yn ystod oriau ysgol

### ystod ac amrywiaeth

- sicrhau bod dewis ac amrywiaeth o wersi cerdd ar gael i bob ysgol a lleoliad, drwy weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o ddarparwyr
- adeiladu ar ddatblygiad technoleg cerdd er mwyn ystyried dulliau cyfunol neu lwyfannau digidol a all ategu cynnig mwy amrywiol o genres cerddorol.

## Rhaglen waith: Profiadau o gerddoriaeth fyw

Pob lleoliad addysg, gan gynnwys ysgolion arbennig

Gwella iechyd a lles drwy gerddoriaeth

Creu cymunedau dysgu cerddoriaeth cryfach

Mae profiad yn rhan annatod o ddysgu yn y Celfyddydau Mynegiannol. Mae'r agwedd arbrofol ar gerddoriaeth yn bwysig i'n plant a'n pobl ifanc archwilio profiadau cyfoethog a dilys yn y Celfyddydau, mewn ysgolion a lleoliadau a'r tu allan iddyn nhw i ddysgu a dathlu cerddoriaeth. Mae defnyddio'r broses greadigol i ddysgu a myfyrio a datblygu sgiliau trosglwyddadwy yn bwysig i gyfleoedd gyrfa yn y diwydiannau creadigol ac ym mhob maes dysgu.

Bydd y corff arweiniol, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a phartneriaethau ehangach, yn datblygu ac yn cyflwyno dwy raglen o weithgarwch i helpu ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, a lleoliadau addysg eraill i gysylltu â pherfformwyr cerddoriaeth a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant.

Bydd y rhaglenni hyn yn ymgorffori ystod o gyfleoedd sy'n amrywiol yn gerddorol ac yn ddiwylliannol ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, y cwricwlwm ehangach a'r tu allan i leoliadau ysgol.

Bydd y rhaglenni hyn yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddatblygu prosesau creadigol, ystyried sut mae artistiaid a chyfansoddwyr, cyfansoddwyr caneuon, cerddorion digidol a cherddorion technoleg cerdd, a gwneuthurwyr ffilmiau yn defnyddio ac yn creu cerddoriaeth. Drwy greu cysylltiadau gwerthfawr â llwybrau gyrfa drwy godi dyheadau plant a phobl ifanc ac arddangos yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael, gallwn ni helpu plant a phobl ifanc i ddarganfod eu potensial llawn.

Bydd yr elfen hon o'r rhaglen yn ategu **Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau**, rhaglen ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, yn enwedig yr elfen 'Ewch i Archwilio' a fydd yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae cerddoriaeth, dawnsio ac actio gydag ymarferwyr creadigol allanol.

**Bydd y corff arweiniol yn gweithio gyda nifer o bartneriaid cenedlaethol a lleol i ddatblygu a chyflwyno rhaglen o gerddoriaeth fyw am ysgolion a fydd yn:**

- rhoi cyfleoedd i ysgolion a lleoliadau gael mynediad at amrywiaeth eang o brofiadau cerddorol byw neu ddigidol o ansawdd uchel
- cynnwys perfformiadau cerddorol rhyngweithiol, gyda chyfraniad gweithwyr proffesiynol creadigol a gweithwyr yn y diwydiant a fydd yn ysbrydoli plant a phobl ifanc i greu cerddoriaeth, yn hyrwyddo lles ac yn dangos cysylltiadau â phob un o ddisgyblaethau Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol
- gweithio gyda phartneriaid i gynnig cyfleoedd i chwarae 'ochr yn ochr' er mwyn meithrin hyder plant a phobl ifanc a chefnogi'r broses o ddatblygu ensembles
- cefnogi ysgolion a lleoliadau drwy ddarparu deunyddiau dysgu proffesiynol ategol, i'w cyhoeddi ar y llwyfan digidol sy'n cael ei ddatblygu gan y corff arweiniol a fydd wedi'i gysylltu â Hwb.

**Bydd y corff arweiniol yn gweithio gyda phartneriaid mewn addysg uwch i ddatblygu a chyflwyno rhaglen o breswyliadau cerddoriaeth ar gyfer cerddorion neu weithwyr proffesiynol y diwydiant a fydd yn:**

- rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddatblygu cysylltiadau â modelau rôl o addysg uwch ac yn cyfeirio at lwybrau at astudio pellach
- rhoi cymorth ar gyfer adnoddau sain, theori, cyfansoddi caneuon, technoleg cerdd a chyfansoddi cerddoriaeth, a chyfleoedd i ysgolion a lleoliadau weithio'n rheolaidd mewn partneriaeth â cherddor neu weithiwr proffesiynol yn y diwydiant
- cefnogi ysgolion a lleoliadau drwy gynnig cyfleoedd i rwydweithio ag arbenigwyr cerdd ac arbenigwyr o'r diwydiannau creadigol
- sicrhau bod israddedigion yn y diwydiant cerddoriaeth a'r diwydiannau creadigol yn ymwybodol o rôl cerddoriaeth yng Nghwricwlwm i Gymru, ac yn cefnogi syniadau ynglŷn â llwybrau gyrfa i genedlaethau'r dyfodol
- tynnu sylw at gyfleoedd i helpu plant a phobl ifanc ddewis llwybrau dysgu effeithiol a phriodol cyn ac ar ôl 16 oed.

# Cefnogi ysgolion, lleoliadau a chymunedau ehangach

Cefnogi ysgolion a lleoliadau

Cynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth yn y gweithlu addysg cerddoriaeth

## Rhaglen waith: Cymorth dysgu proffesiynol ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth, ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth a phartneriaid addysg cerddoriaeth ehangach

Ysgolion, lleoliadau a chymunedau ehangach

Bydd angen deialog proffesiynol rhwng gwasanaethau cerddoriaeth ac ysgolion a lleoliadau er mwyn sicrhau bod y cynllun hwn yn gyson â Chwricwlwm i Gymru. Drwy ddarparu deunyddiau ac adnoddau ategol byddwn ni'n helpu ein gweithlu addysg cerddoriaeth a fydd yn sicrhau bod y cynllun yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Bydd y corff arweiniol, drwy ddarparu cymorth a chyfleoedd dysgu proffesiynol i wasanaethau cerddoriaeth a'r partneriaid addysg cerddoriaeth ehangach, yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod pob un o feysydd y rhaglen waith yn cyrraedd ansawdd cyson.

Mae'n bwysig bod pob partner yn meithrin dealltwriaeth gyffredin o gynllunio'r cwricwlwm a chynnydd dysgwyr drwy gerddoriaeth ac ar draws y disgyblaethau eraill ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol a'r cwricwlwm ehangach.

Bydd y corff arweiniol, awdurdodau lleol, a chonsortia a phartneriaethau rhanbarthol yn cydweithio i rannu a dysgu o ddealltwriaeth ei gilydd er mwyn cefnogi ysgolion a lleoliadau yn unol â'r cwricwlwm a gynlluniwyd ganddyn nhw.

Bydd y corff arweiniol, gan weithio gydag awdurdodau lleol, consortia a phartneriaethau rhanbarthol, Estyn a Llywodraeth Cymru, yn cydgysylltu rhaglen flynyddol o ddysgu proffesiynol i ymarferwyr ac arweinwyr gwasanaethau cerddoriaeth er mwyn helpu i gyflwyno'r cynllun ac, yn fwy cyffredinol, Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion a lleoliadau.

Bydd y rhaglen waith **Profiadau cyntaf** yn rhoi cyfleoedd i ysgolion a lleoliadau ddatblygu gweithgareddau a phrofiadau cerddorol sy'n cefnogi eu cwricwlwm. Bydd rhoi sgiliau, gwybodaeth a hyder i ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth o ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, er mwyn iddyn nhw gyflwyno gwersi cerddoriaeth o ansawdd uchel ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn bwysig. Bydd gwneud hynny yn sicrhau bod cynnydd plant a phobl ifanc mewn cerddoriaeth yn parhau y tu hwnt i'w sesiynau Profiadau cyntaf a gyflwynir mewn partneriaeth ag ymarferwyr cerdd.

### Bydd cymorth dysgu proffesiynol i ymarferwyr gwasanaethau cerddoriaeth yn:

- datblygu rhaglen o gymorth cyson i ymarferwyr gwasanaethau cerddoriaeth yn unol â'r broses o gyflwyno'r cynllun mewn ysgolion a lleoliadau
- sicrhau bod y ffordd y caiff y rhaglen waith **Profiadau cyntaf** ei llunio a'i chyflwyno yn cyd-fynd yn agos â Chwricwlwm i Gymru
- sicrhau bod y gwersi cerdd i grwpiau ac unigolion a gynigir i blant a phobl ifanc yn gyson, ac o'r safon uchaf, drwy fonitro a chefnogi'r trefniadau ar gyfer addysgu a dysgu cerddoriaeth
- sicrhau'r llwyfan adnoddau digidol a fydd yn helpu gwasanaethau cerddoriaeth i ymateb i'r cyfleoedd a goresgyn yr heriau sy'n gysylltiedig â chynyddu mynediad at wersi offerynnau cerdd a manteisio ar dechnoleg ddigidol.

**Bydd cymorth dysgu proffesiynol i ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth mewn ysgolion a lleoliadau yn:**

- gweithio gyda chonsortia a phartneriaethau rhanbarthol i ddatblygu deunyddiau dysgu proffesiynol i gefnogi'r rhaglen waith **Profiadau cyntaf** a'u cyflwyno drwy Hwb
- cyfeirio ymarferwyr y blynyddoedd cynnar at ddeunyddiau dysgu proffesiynol a chyfleoedd cerddoriaeth greadigol sy'n briodol o ran oedran ac yn ddatblygiadol briodol
- rhoi cyfleoedd i rwydweithio a datblygu drwy'r sector cyfan sy'n cyd-fynd ag amcanion y cynllun hwn ac sy'n cefnogi Cwricwlwm i Gymru
- gweithio gyda nifer o sefydliadau, gan gynnwys Race Council Cymru, Disability Arts Cymru, consortia a phartneriaethau rhanbarthol, ac eraill, i ddatblygu dysgu proffesiynol sy'n mynd i'r afael â'r bylchau mewn cydraddoldeb, ac yn gwella amrywiaeth a chynhwysiant.

Cynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth yn y gweithlu addysg cerddoriaeth

Creu cymunedau dysgu cerddoriaeth cryfach

## Rhaglen waith: Gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Ysgolion, lleoliadau a chymunedau ehangach

Dylid sicrhau bod amrywiaeth eang o gyfleoedd a phrofiadau cerddorol ar gael i blant a phobl ifanc o bob cymuned yng Nghymru er mwyn iddyn nhw fwynhau buddiannau cerddoriaeth ac i'r rhai sydd am gamu ymlaen ac arbenigo mewn cerddoriaeth.

I'r rhai sydd am arbenigo mewn chwarae offeryn cerdd, canu, cyfansoddi a chymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, mae'n bwysig mynd i'r afael â'r rhwystrau i blant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel, yn ogystal ag i'r rhai o grwpiau dan anfantais neu heb gynrychiolaeth ddigonol, er mwyn iddyn nhw gael mynediad at wersi cerdd a chael profiad o gerddoriaeth fyw.

Rydyn ni am i bobl ifanc gael profiadau dilys, pwrpasol a chyfoethog, ond dylid anelu at sicrhau eu bod yn mwynhau cerddoriaeth ar ba ffurf bynnag y bo heb y pwysau o wella.

Bydd y corff arweiniol yn gweithio gydag ysgolion a lleoliadau, awdurdodau lleol, Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, Anthem a phartneriaid ehangach i ddatblygu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn llawn drwy'r sector cyfan, a sicrhau bod cyfleoedd teg a chyson i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol, a gyflwynir gan amrywiaeth eang a chynrychioliadol o gerddorion ym mhob rhan o Gymru.

Bydd y corff arweiniol yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i ddatblygu mentrau a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc o bob oedran a lefel gallu greu cerddoriaeth gydag eraill, fel rhan o grŵp neu ensemble. Bydd y gwaith hwn yn helpu ysgolion, lleoliadau a cholegau i weithio'n agos gyda'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu. Bydd cymorth i blant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel yn cael ei flaenoriaethu er mwyn helpu teuluoedd i elwa ar y cyfleoedd hyn.

Bydd y corff arweiniol yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y gwasanaeth cerddoriaeth er mwyn cynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth yn y gweithlu addysg cerddoriaeth. Bydd rhan o'r gwaith hwn yn cael ei chyflawni drwy weithio gyda cherddorion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, pobl anabl ac eraill â nodweddion gwarchodedig sydd ag amrywiaeth o brofiadau uniongyrchol o gerddoriaeth.

Bydd y cynllun gweithredu hefyd yn cynnwys archwiliad sgiliau cychwynnol er mwyn canfod anghenion hyfforddiant a recriwtio, a nodi gwelliannau o ran anghenion amrywiol drwy weithio mewn partneriaeth.

**Bydd ein mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, mewn partneriaeth â Chelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, Anthem ac eraill, yn mynd ati i gefnogi plant a phobl ifanc drwy:**

- ehangu'r cyfleoedd i leisiau pobl ifanc ddylanwadu ar gynnig addysg cerddoriaeth drwy sefydlu fforwm i bobl ifanc er mwyn pennu ffocws y blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth cerddoriaeth
- gwella lefelau ymgysylltu pobl ifanc o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn perthynas â chanu, chwarae, cymryd rhan a chreu cerddoriaeth mewn ysgolion a'r tu allan iddyn nhw
- cyfeirio plant a phobl ifanc o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol at gyfleoedd presennol a rhai newydd i'w helpu i greu a gwneud cerddoriaeth gydag eraill
- sicrhau bod cyfleoedd i berfformio gydag eraill yn cynrychioli diwylliannau a chymunedau lleol, yn ogystal â diwylliannau o bedwar ban byd
- cynnig llwyfannau a chyfleoedd i ddathlu cyflawniadau plant a phobl ifanc o grwpiau dan anfantais ac heb gynrychiolaeth ddigonol, ac yn fwy cyffredinol ddiwylliant a hunaniaeth Cymru, ar lefel genedlaethol.

**Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi'r gwaith o feithrin amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gweithlu drwy:**

- fynd ati i ddwyn ynghyd sefydliadau i ddatblygu a gwella gwaith partneriaeth, gan sicrhau bod ysgolion, lleoliadau, plant a phobl ifanc yn cael eu cyfeirio'n effeithiol a'u cefnogi gan gerddorion yn y gymuned ac mewn ysgolion
- gweithio gyda nifer o sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, Race Council Cymru, Disability Arts Cymru, consortia a phartneriaethau rhanbarthol, ac eraill, i asesu anghenion y gweithlu er mwyn gwella dealltwriaeth o amrywiaeth a chynhwysiant
- meithrin gwell dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng cerddoriaeth, iaith a diwylliant, a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n bodoli o ran mynediad i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- datblygu partneriaethau â sefydliadau cerddoriaeth o bob rhan o'r DU a thu hwnt, er mwyn ehangu gorwelion plant a phobl ifanc Cymru o ran deall yr amrywiaeth eang o gerddoriaeth.

Gwella iechyd a lles drwy gerddoriaeth

Cynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth yn y gweithlu addysg cerddoriaeth

## Rhaglen waith: Cerddoriaeth ar gyfer dysgu gydol oes, iechyd a lles

Ysgolion, lleoliadau a chymunedau ehangach

Mae'n hollbwysig cefnogi ein plant a'n pobl ifanc y mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar eu lles emosiynol, cymdeithasol a chorfforol. Er mwyn cefnogi eu hadferiad, bydd angen gwahanol ymyriadau ac mae'r weledigaeth a nodwyd ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn rhan greiddiol o hyn.

Mae Cwricwlwm i Gymru yn nodi pa mor bwysig ydyw bod plant a phobl ifanc yn meithrin y gallu i ymdrin â chyfleoedd a heriau bywyd. Ein gweledigaeth yw y bydd plant a phobl ifanc, drwy fynediad at gerddoriaeth, yn cael cyfleoedd i ganu, chwarae a chymryd rhan mewn cerddoriaeth gydag eraill, sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i gymryd risgiau mewn ffordd bwyllog, gan gyflwyno emosiynau drwy gerddoriaeth a magu gwydnwch a hunan-barch.

Mae mynediad at weithgareddau a phrofiadau cerddorol yn hanfodol er mwyn cefnogi datblygiad a lles plant a phobl ifanc o bob oedran.

Mae gan gerddoriaeth rôl allweddol i'w chwarae i wella iechyd meddwl a lles pob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig. Bydd y corff arweiniol yn gweithio gydag ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol i ddatblygu mentrau i gefnogi gweithgareddau cerddorol sy'n hybu iechyd a lles.

### Bydd y rhaglen waith Cerddoriaeth ar gyfer dysgu gydol oes, iechyd a lles i ysgolion a lleoliadau yn:

- cefnogi lleoliadau meithrin a gynhelir a lleoliadau meithrin nas cynhelir er mwyn sicrhau bod sgiliau cerddorol plant o dair oed yn cael eu meithrin a'u hybu drwy ddefnyddio eu synhwyrau, eu dychymyg a'u profiad
- sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn cael eu cefnogi i oresgyn rhwystrau, cyflawni eu potensial cerddorol a chael mynediad at weithgareddau sy'n gwella eu hiechyd a lles
- gweithio gydag ysgolion a lleoliadau i ddatblygu'r gwaith o gyflwyno gweithgareddau cerddorol sy'n canolbwyntio ar les, ac sy'n cyd-fynd â'r cynlluniau i 'adnewyddu a diwygio' diwrnodau ysgol
- helpu ysgolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol sy'n hybu lles ac sy'n gwella iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau i gyfeirio a datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc, ynghyd â cherddorion proffesiynol, at gyfleoedd i berfformio a chreu cysylltiadau â chyfleusterau iechyd a gofal a'u datblygu.

### Bydd y rhaglen waith Cerddoriaeth ar gyfer dysgu gydol oes, iechyd a lles i ymarferwyr a'r gymuned ehangach yn:

- cefnogi ymarferwyr yn yr ysgol drwy fynediad at weithgareddau cerddorol i wella eu hiechyd a'u lles
- gweithio gydag awdurdodau lleol ac amrywiaeth eang o bartneriaid i sicrhau bod cyfeiriadau clir at gyfleoedd i brofi mwynhad creu cerddoriaeth, mewn ysgolion a'r tu allan iddyn nhw, a bod y cyfleoedd hynny'n rhan o gynnig gwasanaethau cerddoriaeth
- cefnogi gwasanaethau cerddoriaeth drwy ddysgu proffesiynol, gan ganolbwyntio ar therapi cerdd a cherddoriaeth fel ymyriad er mwyn helpu i wella iechyd meddwl a lles.

# Cerddoriaeth y tu allan i ysgolion

## Rhaglen waith: Creu cerddoriaeth gydag eraill – gweithgareddau cerddorol ac ensembles

Hyrwyddo cydraddoldeb drwy sicrhau mynediad i bob dysgwr chwarae, canu, cymryd rhan, datblygu a chreu cerddoriaeth

Creu cymunedau dysgu cerddoriaeth cryfach

Ers amser maith, bu gan Gymru enw da am gynhyrchu talent gerddorol. Mae'n rhaid inni gefnogi pob plentyn a pherson ifanc er mwyn sicrhau nad yw anfantais, gwahaniaethu nac anabledd yn effeithio ar eu cyfleoedd i gamu ymlaen a gwireddu eu huchelgeisiau a chyflawni eu potensial.

Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar gyfleoedd plant a phobl ifanc i greu cerddoriaeth gydag eraill, fel rhan o ensemble, côr neu fand yn yr ysgol, yn y gymuned, drwy wasanaethau cerddoriaeth lleol ac yn genedlaethol. Bydd y gwasanaeth cerddoriaeth yn gweithio ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o sefydliadau i ail-greu cyfleoedd a datblygu rhai newydd i blant a phobl ifanc gymryd rhan a chreu cerddoriaeth, mewn ysgolion a lleoliadau ledled Cymru a'r tu allan iddyn nhw.

Bydd y gwaith ail-greu yn cynnwys cyfleoedd newydd i blant a phobl ifanc gael budd o'r agweddau ar greu cerddoriaeth gydag eraill sy'n hybu iechyd a lles ac i'r rhai sy'n dymuno arbenigo mewn cerddoriaeth. Bydd y cyfleoedd yn cynnwys profiadau i berfformio'n gyhoeddus, a sefyll arholiadau ymarfer a theori. Rhoddir blaenoriaeth i gymorth i blant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel.

Bydd y gwasanaeth cerddoriaeth yn gweithio gyda phartneriaid i nodi, cefnogi a chyfeirio cerddorion mwy galluog a thalentog a phlant a phobl ifanc sydd ag ADY. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd i berfformio hyd eithaf eu gallu, ac yn rhoi'r un cymorth a phwys ar amrywiaeth eang o genres cerddorol, drwy gysylltiadau â nifer mawr o sefydliadau.

Bydd gwireddu'r weledigaeth y gall pob plentyn a pherson ifanc gael y profiad o gymryd rhan mewn nifer o leoliadau grŵp gydag eraill, heb unrhyw dybiaethau ynglŷn â'u gallu oherwydd anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion corfforol yn allweddol er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon.

**Bydd y rhaglen waith Creu cerddoriaeth gydag eraill yn cefnogi gweithgareddau cerddorol lleol drwy:**

- ymgynghori â'r bobl ifanc yn lleol er mwyn sicrhau mai nhw sy'n datblygu'r gwaith hwn ac mai iddyn nhw y bydd y gwaith
- gweithio gydag ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol lleol ehangach er mwyn adfer ac ail-greu niferoedd y plant a'r bobl ifanc y mae pandemig COVID-19 wedi effeithio arnyn nhw, a sicrhau bod amrywiaeth eang o gyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc gael mynediad at weithgareddau cerddorol lleol
- gweithio gydag awdurdodau lleol, Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, plant a phobl ifanc, ac amrywiaeth eang o bartneriaid, i gydweithio ar fynediad newydd ac ensembles hyfforddi, gan roi cyfleoedd i ddatblygu a chamu ymlaen i berfformio ar y lefelau uchaf.

**Bydd y rhaglen waith Creu cerddoriaeth gydag eraill yn cefnogi ensembles ieuenctid a chenedlaethol drwy weithio gyda:**

- Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ac amrywiaeth eang o sefydliadau cerddoriaeth er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth deg a chyfartal a chyfleoedd i ymgysylltu o bob rhan o Gymru ar lefel genedlaethol
- amrywiaeth o ddarparwyr cyllid, megis Anthem, Cerddoriaeth Ieuenctid ac eraill, i nodi meysydd cymorth ariannol, neu oresgyn rhwystrau o ganlyniad i anfantais neu leoliad daearyddol i gael mynediad at ensembles a gweithgareddau ieuenctid a chenedlaethol
- Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ac amrywiaeth eang o sefydliadau i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY yn cael eu cyfeirio'n effeithiol a'u cynorthwyo, i'w galluogi i gael profiad o berfformio gydag eraill mewn amrywiaeth o leoliadau creu cerddoriaeth.

## Rhaglen waith: Creu cerddoriaeth gydag eraill – y diwydiannau perfformio a chreadigol

Cysylltu'r diwydiant cerddoriaeth ag addysg uwch a dysgu gydol oes

Gwella iechyd a lles drwy gerddoriaeth

Mae creu a pherfformio cerddoriaeth yn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau cerddoriaeth sy'n fuddiol i'w lles. Mae hefyd yn ehangu eu gorwelion o ran y math o yrfaoedd sydd ar gael yn y diwydiannau creadigol y gallan nhw eu hystyried.

Bydd y gwasanaeth cerddoriaeth yn chwarae rôl allweddol o ran cefnogi cyfleoedd i berfformio a dilyn llwybrau gyrfa yn y diwydiannau creadigol. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau a lleoliadau cerddoriaeth ledled Cymru, megis yr Eisteddfod Genedlaethol, Urdd Gobaith Cymru, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Theatr Clwyd, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Opera Cenedlaethol Cymru, Cymru Greadigol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Tŷ Cerdd, Cerdd Gymunedol Cymru ac eraill.

Mae rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc berfformio yn eu cymuned leol yn Gymraeg ac yn Saesneg a hefyd yn eu hiaith eu hunain i'r rhai sydd â Chymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol (CIY/SIY) yn allweddol er mwyn creu amrywiaeth a mynediad. Bydd amrywiaeth o gyfleoedd cynyddol yn galluogi plant a phobl ifanc i gael profiad o gerddoriaeth a darganfod cerddoriaeth a'u creadigrwydd drwy ysgolion a lleoliadau yn ogystal â gwasanaethau cerddoriaeth lleol a sefydliadau cymunedol.

Mae'n bwysig adeiladu ar y cyfleoedd sydd eisoes ar gael i ysgolion gan sefydliadau megis Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a phrosiect Horizons, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y corff arweiniol yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i sicrhau bod y cyfleoedd hyn sy'n bodoli eisoes yn ogystal â'r rhai a gynigir drwy'r cynllun yn amrywiol, gan godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd hyn ymhlith ysgolion, lleoliadau a chymunedau ledled Cymru.

Bydd profiadau i blant a phobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau a'r tu allan iddyn nhw, sy'n rhoi cyfleoedd iddyn nhw greu, recordio a chynhyrchu cerddoriaeth, yn eu helpu i ddeall pa yrfaoedd sydd ar gael yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol. Bydd y corff arweiniol yn gweithio gyda Gyrfa Cymru, Cymru Greadigol a phartneriaid i gyfeirio plant a phobl ifanc at lwybrau gyrfa yn y diwydiannau creadigol.

**Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, Urdd Gobaith Cymru, Cymru Greadigol, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r sector creadigol ehangach, bydd y corff arweiniol yn:**

### llwybrau perfformio

- datblygu cyfres barhaus o gyfleoedd i berfformio y tu allan i'r ysgol ar lefel leol, ranbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol
- sicrhau bod gwybodaeth a chyfeiriadau at stiwdios perfformio a recordio, a mannau creu cerddoriaeth sy'n cefnogi cyfleoedd i greu cerddoriaeth, yn glir ac yn hygyrch
- helpu ysgolion i gael gafael ar wybodaeth am raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru, yn enwedig 'Ewch i Archwilio' sy'n rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddarganfod cerddoriaeth y tu allan i ysgolion a lleoliadau
- cynnig llwybrau a gwybodaeth am addysg uwch a chyrsiau arbenigol ym maes cerddoriaeth
- gweithio gydag Anthem ac amrywiaeth o ddarparwyr cyllid er mwyn sicrhau bod dysgwyr o gartrefi incwm isel yn cael mynediad at gymorth ariannol i barhau i geisio gwireddu eu huchelgeisiau ym maes perfformio, recordio, cynhyrchu a cherddoriaeth ddigidol.

**Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, Urdd Gobaith Cymru, Cymru Greadigol, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r sector creadigol ehangach, bydd y corff arweiniol yn:**

### llwybrau tuag at y diwydiannau creadigol

- cyfeirio plant a phobl ifanc at adnodd gwybodaeth deinamig a rhyngweithiol Cymru Greadigol sy'n cynnwys mapio'r holl seilwaith sy'n rhan o'r sector cerddoriaeth fasnachol yng Nghymru
- cynnig llwybrau a gwybodaeth am brentisiaethau sy'n arwain at yrfaoedd eraill yn y diwydiant cerddoriaeth a fydd ar gael i ysgolion, lleoliadau a phobl ifanc
- gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i ddatblygu rhaglen lleoliadau i israddedigion er mwyn cefnogi ysgolion a lleoliadau
- gweithio gyda Chymru Greadigol a phartneriaid eraill i ddatblygu sgiliau ymarferwyr mewn recordio a chynhyrchu a gwybodaeth a phrofiad o'r diwydiant.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| Diwydiannau creadigol | Sector o fusnesau a sefydliadau y mae creadigrwydd yn greiddiol iddyn nhw megis cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio, ffilm, drama, animeiddio, gemau fideo, dylunio, crefftau a'r celfyddydau gweledol. Gellir defnyddio'r term i gyfeirio at ddiwydiannau creadigol a diwylliannol yn ogystal â'r sectorau creadigol a digidol. |
| Dysgu ochr yn ochr | Gweithiwr proffesiynol neu gerddor mwy profiadol sy'n chwarae neu'n gweithio ochr yn ochr â cherddor iau neu lai profiadol. |
| Dysgwyr mwy galluog a thalentog | Dysgwyr â galluoedd sydd wedi datblygu i lefel sydd dipyn yn uwch na'u cyfoedion, neu sydd â'r potensial i wneud hynny. |
| Dysgwyr sydd dan anfantais a dysgwyr sy'n agored i niwed | Plant a phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu neu sy'n debygol o dangyflawni. Mae'n cynnwys dysgwyr yn un neu fwy o'r grwpiau canlynol ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r grwpiau hyn:<br>• dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY)<br>• dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach a hyfforddiant<br>• dysgwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol sydd wedi dysgu Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol (CIY/SIY)<br>• plant sydd â phrofiad o ofal, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal<br>• dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol<br>• plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches<br>• dysgwyr o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr<br>• dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (gweler hefyd y diffiniad o 'dysgwyr o gartrefi incwm isel')<br>• gofalwyr ifanc<br>• plant sy'n wynebu risg o gael eu niweidio, eu cam-drin neu eu hesgeuluso.<br><br>Gall dysgwyr o'r grwpiau hyn wynebu nifer o rwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni eu potensial ac sy'n gofyn am atebion amrywiol a chymorth er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion unigol. Hefyd, gall dysgwyr berthyn i sawl un o'r grwpiau uchod ar yr un pryd, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol. |

| | |
|---|---|
| Dysgwyr sydd dan anfantais a dysgwyr sy'n agored i niwed (parhad) | Nid yw'r rhestr o grwpiau yn gynhwysfawr. Gellir ystyried dysgwyr nad ydyn nhw yn y grwpiau hyn yn rhai sy'n agored i niwed neu dan anfantais, gan gynnwys y rhai yr effeithiwyd arnyn nhw gan COVID-19. Er enghraifft, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai dysgwyr na fydden nhw wedi cael eu hystyried yn rhai sy'n agored i niwed nac yn rhai dan anfantais cyn COVID-19 oherwydd eu profiadau yn ystod y pandemig.<br>Ceir canllawiau ar gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr dan anfantais ar-lein. |
| Dysgwyr o gartrefi incwm isel | Plant a phobl ifanc y nodwyd yn flaenorol neu ar hyn o bryd eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn ogystal â'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth drwy'r Grant Datblygu Disgyblion. Gall hyn gynnwys plant sy'n derbyn gofal, p'un a oedden nhw'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn flaenorol ai peidio. |
| Grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol | Grŵp o bobl:<br>• nad ydyn nhw'n cael cynrychiolaeth ddigonol, e.e. cymunedau LHDTQ+, cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, neu Sipsiwn a Theithwyr<br>• a all wynebu rhwystrau i gyfleoedd oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys problemau iechyd meddwl, iechyd corfforol/anabledd, nam ar y synhwyrau, anableddau dysgu, niwrowahaniaeth, camdefnyddio sylweddau. |
| Gwasanaeth cerddoriaeth a gomisiynir gan awdurdod lleol | Gwasanaeth cerddoriaeth nad yw'n cael ei oruchwylio'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol ond sy'n cael ei benodi drwy dendr neu drefniant arall, a lle mae'r sefydliad yn gyfrifol am benodi neu gyflogi tiwtoriaid. |
| Gwasanaeth cerddoriaeth a gynhelir gan awdurdod lleol | Gwasanaeth cerddoriaeth y mae'r awdurdod lleol yn cyflogi staff ar ei gyfer a/neu y mae'r awdurdod lleol yn goruchwylio ei waith. |
| Gweithlu addysg cerddoriaeth | Y rhai a gyflogir i gyflwyno addysg cerddoriaeth ym mhob ysgol a lleoliad ac yn y gymuned ehangach. |
| Hwb | Grŵp o sefydliadau, megis awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau, cyrff celfyddydol, cymunedol neu wirfoddol, sy'n gweithio gyda'i gilydd lle mae corff arweiniol ar waith er mwyn creu darpariaeth addysg cerddoriaeth gydgysylltiedig. |

| | |
|---|---|
| Lleoliadau nas cynhelir | Mae awdurdodau lleol yn ariannu lleoedd addysg mewn lleoliadau nas cynhelir, fel arfer meithrinfa ddydd neu gylch chwarae preifat, i ddysgwyr tair a phedair oed sy'n cael addysg y Cyfnod Sylfaen. Bydd y lleoliadau hyn yn dilyn Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022. |
| Profiadau uniongyrchol | Gwybodaeth bersonol am y byd a geir drwy ymwneud yn uniongyrchol â digwyddiadau pob dydd. |
| Sgiliau clywedol | Mae sgiliau canfod clywedol yn hanfodol i lwyddiant pob math o gerddor. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys gwrando ar lawer o fathau gwahanol o gerddoriaeth, a dysgu sut i ddisgrifio rhannau unigol a'r effeithiau a greir drwy gyfuno'r rhannau hyn. |
| Ymarferydd | Gall hyn gyfeirio at ddau gategori penodol:<br>• ymarferydd cerdd yn yr ystafell ddosbarth – a gyflogir gan yr ysgol neu'r lleoliad i addysgu cerddoriaeth yng nghwricwla'r ysgol, ac sydd fel arfer wedi'i leoli mewn un lleoliad<br>• ymarferydd/tiwtor gwasanaeth cerddoriaeth – a gyflogir i gyflwyno gwersi'r gwasanaeth cerddoriaeth, cymorth yn yr ystafell ddosbarth neu weithgareddau ar ran y gwasanaeth cerddoriaeth a gynhelir gan yr awdurdod lleol neu a gomisiynir gan yr awdurdod lleol, neu gwmnïau annibynnol. Mae'r tiwtoriaid hyn fel arfer yn beripatetig ac maen nhw'n addysgu mewn nifer o ysgolion a lleoliadau. |

© Hawlfraint y Goron 2022 WG44472 ISBN digidol 978 1 80364 135 5